# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**(via MS Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 9 Medi 2021** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd A.R.Aubrey** |
| **Cynghorwyr**: | J.Hurley, S.Miller, S.Pursey, S.Renkes, A.Llewelyn, A.J.Richards, S.K.Hunt a/ac L.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths S.Curran and A.Thomas |

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021 fel cofnodion cywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Cofnod 3, Paragraff 4, Llinell 9:
Newid 'staff' i 'aelod' fel ei fod yn darllen:
Er enghraifft, sut y byddai 'aelod' yn cysylltu ag aelod o staff?

## 3. PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cadarnhawyd bod y rôl yn rôl statudol y mae rhywun yn cael ei dynodi i'w chyflawni. Ni ellir herio dynodiad y rôl o dan drefniadau cyflogaeth. Mae'n ychwanegu elfen statudol at y swydd bresennol sy'n cael ei gwneud gan y cyflogai. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur ac maent yn cytuno â'r egwyddorion a ddefnyddiwyd i ddynodi'r rôl.

Yn dilyn trafodaeth, roedd yr aelodau'n cefnogi'r argymhelliad yn yr adroddiad i'w roi gerbron y cyngor llawn i'w ystyried.

## 4. ADRODDIAD GRWP TASG A GORFFEN ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Rhoddwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn amlinellu canlyniadau Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu'r Cyfansoddiad. Ystyriodd yr adolygiad y gofynion cyfreithiol a hefyd yr elfennau ymarferol yr oedd yr aelodau am eu gweld fel rhan o'r cyfansoddiad.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai'r cyngor llawn sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad terfynol ar ddiwygiadau cyfansoddiadol.

Holodd yr aelodau am roi rhai o'r diwygiadau cyfansoddiadol ar waith. Dywedodd Mr Griffiths, os caiff y diwygiadau eu cadarnhau gan y cyngor llawn, mai ei fwriad yw ysgrifennu at bob Cynghorydd gan roi copi iddynt o'r Cyfansoddiad diwygiedig ac amlinellu'r newidiadau allweddol a wnaed.

Cyfeiriodd yr aelodau'n benodol at berthnasau swyddogion ac aelodau. Cadarnhawyd y bydd seminar aelodau ar yr eitem hon cyn bo hir a bydd hefyd yn cael ei gynnwys yn rhaglen sefydlu aelodau 2022.

Yn dilyn trafodaeth, roedd yr aelodau'n cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad i'w roi gerbron y cyngor llawn i'w ystyried.

## 5. GRWP CYFEIRIO TECHNOLEG GWYBODAETH AELODAU

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Grŵp Cyfeirio TGCh fel arfer yn cael ei ailsefydlu pan fydd gofyniad busnes i wneud hynny. Mae llawer iawn o broblemau TGCh y bydd yn ofynnol eu treialu yn y dyfodol agos. Mae'r adroddiad yn argymell y dylid ailsefydlu'r grŵp er mwyn gallu ymateb i'r eitemau hyn sy'n dod i'r amlwg. Mae'r eitemau'n cynnwys symud i Zoom, gweithio hybrid posib yn y dyfodol a Sefydlu Aelodau 2022 gan gynnwys y pecyn TGCh i aelodau a'r polisi TGCh.

Penderfynwyd:

(a) cymeradwyo Cylch Gorchwyl Grŵp Cyfeirio TGCh yr aelodau; a

(b) chadarnhau Aelodaeth y Grŵp Cyfeirio TG a threfnu dyddiad ar gyfer y cyfarfod cyntaf.

## 6. TREFNIADAU A CHYFARPAR Y CYFARFOD HYBRID

Amlinellodd Craig Griffiths y trefniadau presennol o ran cyfarfodydd, a sut maent yn cael eu cyfleu ar YouTube. Fodd bynnag, mae'r trefniadau deddfwriaethol wedi newid ers sefydlu'r broses hon. Yn ogystal â'r gofyniad i gyhoeddi a gwe-ddarlledu, mae gofyniad cyfreithiol bellach i gyfarfodydd weithredu o fewn model hybrid.

Mae paragraff 20 o'r adroddiad yn rhoi trosolwg ariannol o'r gofynion i alluogi'r cyngor i weithredu model hybrid. Bydd angen gwneud gwaith i'r Siambr, a fydd hefyd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n wynebu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd sy'n wynebu'r lleoliad ar hyn o bryd. Bydd hyn yn sicrhau y gall aelodau ac aelodau o'r cyhoedd gael mynediad i'r Siambr.

Nodwyd bod gwaith ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar y Siambr. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gost. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio sefydlu grŵp astudio i edrych ar ystafelloedd eraill y gellid eu defnyddio o bosib i ddarparu ar gyfer cyfarfodydd hybrid.

Atgoffwyd yr aelodau bod yr adroddiad yn ymwneud â phrynu'r offer a fydd yn galluogi'r elfen ffisegol o weithio hybrid. Nid oedd yr adroddiad yn ceisio pennu'r polisïau a’r protocolau etc. i weithredu'r trefniant hybrid.

Roedd yr aelodau'n awyddus i weld ystafelloedd eraill yn cael eu hystyried i gael eu huwchraddio i weithredu model hybrid. Efallai y gellid ystyried offer cludadwy ar gyfer ystafelloedd eraill. Byddai gwaith pellach yn cael ei wneud gan y grŵp astudio yr argymhellir ei sefydlu.

Atgoffwyd yr aelodau am y ddyletswydd ar y cyngor i gynyddu a hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd, a'r gobaith yw y byddai'r offer newydd yn helpu'r cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i wneud hyn yn llwyddiannus.

Awgrymodd yr aelodau y gellid ystyried ystafell bwrpasol ar gyfer cyfarfodydd craffu. At hynny, gellid defnyddio'r offer presennol yn y Siambr mewn mannau eraill fel nad yw'n dod yn ddiangen, o gofio

mai dim ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf y cafodd ei uwchraddio.
Ailbwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cael mynediad digonol i'r Siambr, a fyddai'n cynnwys mynediad i bobl anabl.

Yn dilyn trafodaeth, roedd yr aelodau'n cefnogi'r argymhelliad yn yr adroddiad i'w roi gerbron y Cabinet i'w ystyried.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH 2021-22

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y posibilrwydd o gyfarfodydd ychwanegol rhwng mis Hydref a mis Ebrill, yn dibynnu ar y busnes a all godi.

Nodi'r Flaenraglen Waith.

## 8. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys i'w hystyried.

**CADEIRYDD**